

Acting now to help deliver clean, green energy to our homes and businesses in Wales

As a nation we're in a climate emergency, and a cost-of-living crisis. Our supply of energy is threatened by world events. There is endless potential for renewable energy in Wales – particularly from the wind that blows across our hills and mountains.

But this clean, green energy is stuck in the windy areas of Wales, and we need to get it to the homes, hospitals, schools, businesses, and communities that need it.

Bute Energy is an independent renewable energy company focused on building a low carbon and prosperous country, delivering clean energy and supporting Welsh communities.

Green GEN Cymru, part of the Bute Energy Group, is developing a stronger, more resilient renewable electricity network that is greatly needed in Wales, to help deliver clean green energy to our homes and businesses and meet the Welsh Government's target for 100% renewable electricity in Wales by 2035.


Gweithredu nawr i helpu i ddarparu ynni glân a gwyrdd i'n cartrefi a'n busnesau yng Nghymru

Fel gwlad, rydyn ni mewn argyfwng hinsawdd, ac argyfwng costau byw. Mae digwyddiadau byd-eang yn bygwth ein cyflenwad ynni. Mae potensial di-bendraw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd.

Ond mae'r ynni glân a gwyrdd hwn yn cael ei ddal yn ardaloedd gwyntog Cymru, ac mae angen inni sicrhau ei fod yn cyrraedd y cartrefi, yr ysbytai, yr ysgolion, y busnesau a'r cymunedau sydd ei angen.

Mae Bute Energy yn gwmni ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n canolbwyntio ar adeiladu gwlad carbon isel sy'n ffynnu, gan ddarparu ynni glân a chefnogi cymunedau yng Nghymru.

Mae Green GEN Cymru, rhan o Grŵp Bute Energy, yn datblygu rhwydwaith trydan adnewyddadwy cryfach a mwy cydnerth mae Cymru mawr angen, a hynny er mwyn helpu i ddarparu ynni gwyrdd glân i'n cartrefi a'n busnesau a chyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 100% o drydan adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2035.



About the Green GEN Towy Usk Project

The Green GEN Towy Usk proposal is for a new 132kV (132,000- volt) double-circuit overhead line, supported on steel pylons, between a substation on the Nant Mithil Energy Park in the Radnor Forest area and a new substation, to be developed by National Grid, on the existing 400kV (400,000-volt) transmission line near Llandyfaelog, between Carmarthen and Pont Abraham.

Green GEN Towy Usk will bring this clean green energy to the homes and businesses that need it. Importantly, other Bute Energy parks and green energy projects will be able to connect, reducing the amount of additional infrastructure needed in future.

Green GEN Towy Usk will reduce pressure on the existing electricity grid, supporting energy resilience, green businesses and enabling green heating and the roll out of electric vehicles across Wales – particularly in rural areas.

This grid will not only transport green energy across Wales, it also has the potential to support technologies such as 5G that could help farmers, schools and businesses to be at the cutting edge of technology while being based in a rural area. The project will have a lasting and positive impact on Welsh people.

Gwybodaeth am Brosiect Green GEN Tywi Wysg

Mae cynnig Green GEN Tywi Wysg ar gyfer llinell uwchben cylched dwbl 132kV (132,000 folt), a gefnogir ar beilonau dur, rhwng is-orsaf ar Barc Ynni Nant Mithil yn ardal Fforest Maesyfed ac is-orsaf newydd ar linell drawsyrro 400kV (400,000 folt) bresennol y National Grid ger Llandyfaelog, rhwng Caerfyrddin a Phont Abraham.

Bydd Green GEN Tywi Wysg yn dod ag ynni gwyrdd glân i'r cartrefi a'r busnesau sydd ei angen. Yn bwysig iawn, bydd parciau ynni Bute Energy a phrosiectau ynni gwyrdd eraill hefyd yn gallu cysylltu, gan leihau faint o seilwaith ychwanegol fydd ei angen yn y dyfodol.


Bydd Green GEN Tywi Wysg yn lleihau'r pwysau ar y grid trydan presennol, gan gefnogi cadernid ynni, busnesau gwyrdd a galluogi gwres gwyrdd a chyflwyno cerbydau trydan ledled Cymru – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Bydd y grid hwn nid yn unig yn cludo ynni gwyrdd ledled Cymru, ond mae ganddo hefyd y potensial i gefnogi technolegau fel 5G a allai helpu ffermwyr, ysgolion a busnesau i fod ar flaen y gad ym maes technoleg er iddyn nhw fyw mewn ardal wledig. Bydd y prosiect yn cael effaith barhaol a chadarnhaol ar bobl Cymru.



How we have developed our proposals

Sut rydym wedi datblygu ein cynigion



When drawing up our plans, we compared the environmental, technical and cost implications of 11 potential connection options for Nant Mithil and other potential energy parks.


We decided a connection near Carmarthen was the best option to take forward. Other options would mean more infrastructure (longer overhead lines), impacts on the Brecon Beacons National Park or protected landscapes, or losing the opportunity to connect more than one energy park using the same infrastructure.

Fe wnaethom edrych ar 11 opsiwn i gysylltu ein chwe parc ynni arfaethedig â'r rhwydwaith trydan presennol yn Ne Cymru a'r gororau.

Penderfynwyd mai cysylltiad ger Caerfyrddin oedd yr opsiwn gorau i fwrw ymlaen ag ef. Byddai opsiynau eraill yn golygu mwy o seilwaith (llinellau uwchben hirach), effeithiau ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu dirweddau gwarchoddedig, neu gollir cyfle i gysylltu mwy nag un parc ynni gan ddefnyddio'r un seilwaith.

Our preferred route

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym



Working with our environmental consultants, we identified corridors of land through which an overhead line route could be installed, looking at how each might affect local communities, the landscape, local views, biodiversity, forestry and cultural heritage, flood risk.

We then selected a preferred corridor seeking to reduce the impact and identified potential route options within it. Following further research, we selected a route that best reduced the effects to take forward for public consultation.

In developing our proposals we have considered The Holford Rules, which set out principles for routeing overhead lines, such as avoiding prominent ridges and skylines, following broad wooded valleys, avoiding settlements and residential properties, and maximising opportunities for 'backclothing' and the screening of infrastructure.

We believe our preferred route would have the lowest impact on the landscape and local communities, and is also the most economic and efficient solution with the least new infrastructure.

Gan weithio gyda'n hymgyngorwyr amgylcheddol, gwnaethom nodi coridorau o dir y gellid eu defnyddio i osod llwybr llinell uwchben, gan edrych ar sut y gallai pob un effeithio ar gymunedau lleol, y dirwedd, golygfeydd lleol, bioamrywiaeth, coedwigaeth, treftadaeth ddiwylliannol a pherygl llifogydd.

Yna gwnaethom ddewis y coridor mwyaf ffafriol i ceisio lleihau'r effaith a nodi opsiynau llwybr posibl oddi mewn iddo. Yn dilyn rhagor o ymchwil, rydyn ni wedi dewis llwybr sy'n amharu lleiaf ar yr ardal ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Rydyn ni'n ystyried Rheolau Holford wrth ddatblygu ein cynigion. Mae'r rheolau'n gosod egwyddorion ar gyfer llwybro llinellau uwchben, ac mae'r prif egwyddorion yn cynnwys osgoi cribau a thoeau amlwg; dilyn dyffrynnoedd coediog eang; osgoi aneddiadau ac eiddo preswyl; a manteisio i'r eithaf ar gyfleodd i greu 'cefnlen' a sgrinio seilwaith.

Rydyn ni'n credu mai'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio byddai'n cael yr effaith leiaf ar y dirwedd ac ar gymunedau lleol, a dyma hefyd yr ateb mwyaf economaidd ac effeithlon gyda'r lleiaf o seilwaith newydd.

What will it look like?

Sut bydd yn edrych?



The new 132kV overhead line will be carried on steel lattice pylons. We need to use pylons because there will be two circuits (three sets of wires on each side of the pylons), carrying more power than can be carried safely on a single line of wooden poles.

The standard height for the type of 132kV pylon we would look to use is 27 metres. Pylon heights and span lengths may need to be increased or decreased depending on the terrain, or where crossing obstacles like streams and rivers.

As we develop our projects, we consider the visual impacts of the overhead lines and how these can be reduced through careful routeing.

We know that new infrastructure can be disruptive to communities. We are committed to doing everything we can to cause the least disturbance to the environment and those who live, work and enjoy recreation close to our proposals.

Bydd y llinell uwchben 132kV newydd yn cael ei chludo ar beilonau delltog dur. Mae angen i ni ddefnyddio peilonau dur oherwydd bydd dwy gylched (tair set o wifrau ar ddwy ochr y peilonau), sy'n cludo mwy o bŵer nag y gellir ei gludo'n ddiogel ar un llinell o bolion pren.

Yr uchder safonol ar gyfer y math o beilon 132kV y byddem yn ei ddefnyddio yw 27 metr. Mae'n bosibl y bydd angen cynyddu neu leihau union uchder a hyd y peilonau yn dibynnu ar y tir, neu wrth groesi rhwystrau fel afonydd a nentydd.

Wrth i ni ddatblygu ein prosiectau, rydyn ni'n ystyried effeithiau gweledol y llinellau uwchben a sut mae modd lleihau'r rhain drwy lwybro gofalus.

Gwyddom y gall seilwaith newydd amharu ar gymunedau. Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a'r rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn agos at ein cynigion.

Have your say

In this first round of consultation we would like your views on our preferred overhead line route, and any specific locations or issues you would like us to consider when planning where the pylons should go.

We have divided our preferred route into five sections, to make it easier for you to let us know which section or sections you are referring to, or if your comments apply to the whole route.

Our public consultation runs from Monday 06 March 2023 to Friday 28 April 2023.

We welcome your feedback, which you can send to us using the online form at www.greengentowyusk.com or by completing a hard copy form (available at our exhibitions or on request).

You can email us at:

 info@greengentowyusk.com

You can write to us free of charge at:

 **FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**

You can call us free of charge on:

 **0800 3777 339**

Dweud eich dweud

Yn y rownd gyntaf hon o ymgynghori, hoffem gael eich barn ar y llwybr llinell uwchben sy'n cael ei ffafrio gennym, ac unrhyw leoliadau penodol neu faterion yr hoffech i ni eu hystyried wrth gynllunio ble y dylai'r peilonau fynd.

Rydyn ni wedi rhannu'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn bum adran, i'w gwneud yn haws i chi roi gwybod i ni pa adran neu adrannau rydych chi'n cyfeirio atynt, neu a yw eich sylwadau'n berthnasol i'r llwybr cyfan.

Mae ein hymgyngoriad yn cael ei chynnal rhwng dydd Llun 06 Mawrth 2023 a dydd Gwener 28 Ebrill 2023.

Rydyn ni'n croesawu eich adborth. Gallwch ei anfon atom gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn www.greengentowyusk.com neu drwy lenwi ffurflen copi caled (sydd ar gael yn ein harddangosfeydd neu ar gais).

Gallwch anfon e-bost atom:

 info@greengentowyusk.com

Gallwch ysgrifennu atom yn rhad ac am ddim yn::

 **FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**

Gallwch ein ffonio am ddim ar:

 **0800 3777 339**




Our preferred route: Section 1

Nant Mithil Energy
Park to Builth Wells

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym: Adran 1

Parc Ynni Nant Mithil i
Lanfair-ym-Muallt



Our preferred route starts at the proposed Nant Mithil Energy Park between Radnor and Llandrindod Wells. It heads southwest to Franks Bridge, then passes south of Llanantffraed-in-Elwel, avoiding an area of ancient woodland to reach a point near Llanfaredd, east of Builth Wells.

The preferred route offers better opportunities to reduce effects on homes through detailed routing, and runs through a more open valley, avoiding frequent changes of direction. It is also preferred on cultural heritage grounds, hydrology and geology, and avoids passing through a block of ancient woodland.

Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym yn dechrau ym Mharc Ynni arfaethedig Nant Mithil rhwng Maesyfed a Llandrindod. Mae'n mynd tua'r de orllewin i Bont Franks, ac yna'n mynd i'r de o Lansanffraid, gan osgoi ardal o goetir hynafol i gyrraedd pwynt ger Llanfaredd, sydd i'r dwyrain o Lanfair-ym-Muallt.


Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn cynnig gwell cyfleoedd i leihau'r effeithiau ar gartrefi drwy lwybro manwl, ac mae'n rhedeg drwy ddyffryn mwy agored, gan osgoi newid cyfeiriad yn aml. Mae hefyd yn cael ei ffafrio ar sail treftadaeth ddiwylliannol, hydroleg a daeareg, ac mae'n osgoi mynd drwy floc o goetir hynafol.

Our preferred route: Section 2

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym: Adran 2

Builth Wells to Llangammarch Wells

Llanfair-ym-Muallt i Llangamarch



The route then heads west, passing south of Builth Wells, screened by the low hill of Garth and avoiding wooded slopes south-west of the town. The route crosses the railway line and A483 just south of Cilmery, and then runs in parallel with them (on the north side) to a point just west of Garth, where it crosses the A483 again to head south-west towards Llangammarch Wells.

Our preferred route has the best 'fit' with the landscape, avoiding the river valley to a greater extent than other options considered, but is likely to be more visible from roads. It crosses a greater amount of Best and Most Versatile (BMV) land and (as with all route options) cannot avoid ancient woodland, but is also preferred to other options in relation to biodiversity, hydrology and geology.

Yna, mae'r llwybr yn mynd tua'r gorllewin, gan basio i'r de o Lanfair-ym-Muallt, wedi'i guddio gan fryn isel Garth ac osgoi llethrau coedlog i'r de-orllewin o'r dref. Mae'r llwybr yn croesi'r rheilffordd a'r A483 ychydig i'r de o Gilmeri, ac yna'n rhedeg yn gyfochrog â nhw (ar yr ochr ogleddol) i bwynt ychydig i'r gorllewin o Garth, lle mae'n croesi'r A483 eto i gyfeiriad y de-orllewin tuag at Llangamarch.


Mae'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn 'cyd-fynd' orau â'r dirwedd, gan osgoi dyffryn yr afon i raddau mwy nag opsiynau eraill a ystyriwyd, ond mae'n debygol o fod yn fwy gweladwy o'r ffyrdd. Mae'n croesi mwy o dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) ac (fel gyda phob opsiwn llwybr) ni all osgoi coetir hynafol, ond mae hefyd yn cael ei ffafrio yn lle opsiynau eraill mewn perthynas â bioamrywiaeth, hydroleg a daeareg.

Our preferred route: Section 3

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym: Adran 3

Llangammarch Wells
to Llandovery

Llangamarch i
Llanymddyfri



The route continues south-west to Bryn-beili (between Llanwrtyd Wells and the Sennybridge Training Area) and then along the edge of Crychan Forest, keeping south of Cynghordy to a point where it meets the railway line north of Abercrychan, near Llandovery.

Our preferred route passes through coniferous forest plantation and routes around Cynghordy and contains a smaller amount of ancient woodland than other route options. Effects on the Afon Gwy SAC/SSSI and other designated sites, such as Abererbwll fort Scheduled Monument, can be avoided or minimised by careful placement of pylons at the detailed design stage.

Mae'r llwybr yn parhau i'r de-orllewin i Fryn-beili (rhwng Llanwrtyd ac Ardal Hyfforddi Pontsenni) ac yna ar hyd ymyl Coedwig Crychan, gan gadw i'r de o'r Cynghordy i bwynt lle mae'n cwrdd â'r rheilffordd i'r gogledd o Abercrychan, ger Llanymddyfri.


Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym yn mynd drwy blanhigfa coed conwydd a llwybrau o amgylch Cynghordy ac mae'n cynnwys llai o goetir hynafol nag opsiynau llwybr eraill. Gellir osgoi neu leihau'r effeithiau ar ACA/SoDdGA Afon Gwy a safleoedd dynodedig eraill, fel Heneb Restredig Abererbwll, drwy leoli peilonau'n ofalus ar y cam dylunio manwl.

Our preferred route: Section 4

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym: Adran 4

Llandovery to Llandeilo

Llanymddyfri i Llandeilo



The route keeps west of Llandovery, then turns south to cross the A40 and the River Towy. It then heads south-west, contained within a side valley away from the Towy valley so it is less visible from areas popular with visitors. Continuing south-west, it keeps to the east of Llangadog and south of Manordeilo to a point near Rhosmaen, north of Llandeilo.

Our preferred route avoids the Afon Tywi SAC/SSSI, is at the greatest distance from Gallt y Tlodion (Poor Man's Wood) Wildlife Trust Reserve and contains the smallest amount of Floodplain Grazing habitat. It also avoids pinch points at the edge of Llandovery, and offers opportunities to avoid ancient woodland with careful routing and siting of infrastructure.

Mae'r llwybr yn cadw i'r gorllewin o Llanymddyfri, yna'n troi i'r de i groesi'r A40 a'r Afon Tywi. Wedyn mae'n mynd i'r de-orllewin gan lwybro ochr dyffryn a throi ffwrdd o ddyffryn Tywi, felly mae'n llai amlwg i ardaloedd sy'n boblogaidd gydag ymwelwyr. Gan barhau i'r de-orllewin, mae'n mynd i'r dwyrain o Llangadog ac i'r de o Faenordeilo i bwynt ger Rhosmaen, i'r gogledd o Llandeilo.


Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym yn osgoi ACA/SoDdGA Afon Tywi, a dyma'r pellaf o Warchodfa Ymddiriedolaeth Natur Gallt y Tlodion ac mae'n cynnwys y lleiaf o gynefin Pori Gorfifdir. Mae hefyd yn osgoi mannau cul ar gyrion Llanymddyfri, ac mae'n cynnig cyfleoedd i osgoi coetir hynafol drwy lwybro a lleoli seilwaith yn ofalus.

Our preferred route: Section 5

Y llwybr sy'n cael ei ffafrio gennym: Adran 5

Llandeilo to Llandyfaelog

Llandeilo i Llandyfaelog



The route keeps north of Llandeilo, heading south-west and passing to the west of Llanarthne before crossing the A48 at a point east of Nantycaws. It continues south-west to reach the existing National Grid 400kV electricity transmission line north of Llandyfaelog. The preferred route in this section has less impact than other options on woodland, forestry and designated nature sites.

This route is preferred on landscape and visual grounds. It crosses the Afon Tywi SAC/SSSI and the Gwendraeth Fach and their tributaries fewer times than other options, and does not cross any other SSSIs, NNRs or Wildlife Trust Reserves. It has best opportunity to minimise effects on woodland and forestry and crosses the smallest amount of BMV land.

Mae'r llwybr yn cadw i'r gogledd o Llandeilo, gan fynd tua'r de-orllewin a mynd i'r gorllewin o Lanarthne cyn croesi'r A48 ar bwynt i'r dwyrain o Nantycaws. Mae'n parhau i'r de orllewin i gyrraedd llinell trawsyrru trydan 400kV bresennol y National Grid i'r gogledd o Llandyfaelog. Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn yr adran hon yn cael llai o effaith nag opsiynau eraill ar goetiroedd, coedwigaeth a safleoedd natur dynodedig.

Mae'r llwybr hwn yn cael ei ffafrio am resymau tirwedd a gweledol. Mae'n croesi ACA/SoDdGA Afon Tywi ac Afon Gwendraeth Fach a'u hisafonydd yn llai aml nag opsiynau eraill, ac nid yw'n croesi unrhyw SoDdGA, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol na Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt eraill. Mae'n cynnig y cyfle gorau i leihau'r effeithiau ar goetiroedd a choedwigaeth a dyma'r llwybr sy'n croesi'r lleiaf o dir BMV.

Nant Mithil Energy Park

Nant Mithil Energy Park is a project by Bute Energy to help tackle the climate emergency in Wales and secure affordable, clean, green energy supplies for the future.

Located in the Radnor Forest area, 9km east of Llandrindod Wells, the energy park will generate around 237MW (megawatts) of clean, green energy – enough to power around 200,000 homes and displace some 350,000 tonnes of CO2 each year.

The energy park will have approximately 36 wind turbines, with a maximum blade tip height of 220m, a substation, control building and permanent anemometer masts for monitoring wind speeds and turbine performance.

The energy park site, currently used mainly as pasture, has been chosen for its technical suitability and wind speeds. Part of the site is identified as a Pre-assessed Wind Priority Area in the Welsh Government's *Future Wales: the national plan 2040*.


Parc Ynni Nant Mithil

Mae Parc Ynni Nant Mithil yn brosiect gan Bute Energy i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru a sicrhau cyflenwadau ynni fforddiadwy, glân a gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

Wedi'i leoli yn ardal Coedwig Maesyfed, 9km i'r dwyrain o Landrindod, bydd y parc ynni'n cynhyrchu tua 237MW (megawat) o ynni glân a gwyrdd – digon i bweru tua 200,000 o gartrefi a dadleoli tua 350,000 tonnell o CO2 bob blwyddyn.

Bydd gan y parc ynni tua 36 o dyrbinau gwynt, gydag uchafswm uchder o 220m at frig y llafn, is-orsaf, adeilad rheoli a mastiau anemometr parhaol ar gyfer monitro cyflymder gwynt a pherfformiad tyrbinau.

Mae safle'r parc ynni, sy'n cael ei ddefnyddio fel porfa ar hyn o bryd, wedi cael ei ddewis oherwydd ei addasrwydd technegol a'i gyflymder gwynt. Mae rhan o'r safle wedi'i nodi fel Ardal â Blaenoriaeth wedi'i asesu ymlaen llaw yn y *Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040*.



What happens next?

Following this first round of public consultation, we will carefully consider all feedback received, along with reports from our environmental and technical surveys.

We will continue talking to landowners, communities and stakeholders to help us develop a detailed design and alignment for the new overhead line, including locations for pylons, access routes and working areas.

We will also carry out a detailed Environmental Impact Assessment, and our detailed proposals will be subject to further consultation.

New overhead lines of 132kV, and other overhead lines associated with a devolved generation station, are classed as a Development of National Significance (DNS). This means that developers must submit consent applications to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW), and decisions are then made by the Welsh Ministers.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn dilyn y rownd gyntaf hon o ymgynghori â'r cyhoedd, byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl adborth a gawn, ynghyd ag adroddiadau o'n harolygon amgylcheddol a thechnegol.

Byddwn yn parhau i drafod â thirfeddianwyr, cymunedau a rhanddeiliaid i'n helpu i ddatblygu dyluniad manwl ac aliniad ar gyfer y llinell uwchben newydd, gan gynnwys lleoliadau ar gyfer peilonau, llwybrau mynediad ac ardaloedd gwaith.

Byddwn hefyd yn cynnal Asesiad manwl o'r Effaith Amgylcheddol, a bydd ein cynigion manwl yn destun ymgynghoriad pellach.

Mae llinellau uwchben newydd 132kV, a llinellau uwchben eraill sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig, yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau am ganiatâd i'r adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW), a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud wedyn gan Weinidogion Cymru.



Community Benefit Fund

Bute Energy is setting up a Community Benefit Fund that will invest millions of pounds every year into local communities.

The funding will come from the Bute Energy Parks that connect to Green GEN Towy Usk. In this unique approach, every year Bute Energy will pay £7,500 per MW of installed capacity into the fund, which will be shared between the communities closest to the Energy Parks and those along the grid routes.

The Bute Energy Community Benefit team will be talking with local people and organisations about the projects, groups and services they are engaged with and how we can help. Let us know who's doing great work where you live so that we can speak with them. We want to be good neighbours as a part of a thriving community.

Cronfa Budd Cymunedol

Mae Bute Energy yn sefydlu Cronfa Budd Cymunedol a fydd yn buddsoddi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn mewn cymunedau lleol.

Daw'r cyllid gan Barciau Ynni Bute Energy sy'n cysylltu â Green GEN Tywi Wysg. Yn y dull unigryw hwn bob blwyddyn bydd Bute Energy yn unig yn talu £7,500 y MW o gapasiti wedi'i osod yn y gronfa, a fydd yn cael ei rannu rhwng y cymunedau sydd agosaf at y Parciau Ynni a'r rheini sydd ar hyd llwybrau'r grid.

Bydd tîm Budd Cymunedol Bute Energy yn siarad â phobl a sefydliadau lleol am y prosiectau, y grwpiau a'r gwasanaethau maen nhw'n ymwneud â nhw a sut gallwn ni helpu. Rhowch wybod i ni pwy sy'n gwneud gwaith gwych yn lle rydych chi'n byw er mwyn i ni allu siarad â nhw. Rydyn ni eisiau bod yn gymdogion da fel rhan o gymuned sy'n ffynnu.

